

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate

Edition 2 – Autumn 2020

Croeso

Ystadau Cymru – yn annog rhagoriaeth ym maes rheoli mewn modd gweithredol ystad sector cyhoeddus Cymru drwy gydweithredu strategol a chanllaw arferion da.



Neges gan y Cadeirydd, Umar Hussain MBE

Helo a chroeso i ail Gylchlythyr Ystadau Cymru.

Dyma gyfle i bwysleisio a dangos y gwaith sydd wedi mynd rhagddo yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Bydd y cylchlythyr hwn yn hoelio sylw ar:

- Y gynhadledd ar-lein sydd ar ddod ar 3 Rhagfyr 2020;
- Gwobrau Ystadau Cymru;
- Cyfraniadau diddorol gan randdeiliaid ar ymatebion i Covid-19, gweithio o bell a mwy ...



Y Gynhadledd

Bydd ail Gynhadledd Ystadau Cymru yn cael ei chynnal ar 3 Rhagfyr 2020, a chaiff ei chynnal ar-lein. Bydd gwahoddiadau yn cael eu dosbarthu maes o law.

Oherwydd y pandemig presennol, teimlai'r Bwrdd fod ganddynt rwymedigaeth i ailffocysu amcanion a chynllun gwaith Ystadau Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd y gynhadledd yn rhoi cyfle i'r cyhoedd yn ehangach ac i'r rheini sy'n gyfrifol am asedau'r trydydd sector adlewyrchu, dysgu a rhannu eu profiadau hyd yma a'u hymateb parhaus.


Mae'r agenda i'w gweld llyw.cymru/ystadau-cymru

Gwobrau Ystadau Cymru

Lansiwyd y gwobrau ar 4 Medi 2020 gan Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Mae'r gwobrau yn dathlu arferion gorau o ran mynd ati'n weithredol i reoli ystâd trydydd sector Cymru. Mae pum categori i'r gwobrau:

- Creu twf economaidd
- Dangos cynaliadwyedd amgylcheddol
- Darparu gwasanaethau mwy integredig
- Lleihau costau rhedeg yr ystadau
- Sicrhau'r gwerth gorau am arian

Bydd y Seremoni Wobrwyo yn cael ei chynnal brynhawn y gynhadledd ynghyd ag anerchiad gan y Gweinidog.



Cadernid y Sector Cyhoeddus – Covid-19

Mae rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus wedi dechrau datblygu strategaethau ynghylch eiddo, polisi a thechnoleg i helpu eu staff i weithio o bell ac i weithio'n glyfar. Mae enghreiffiau'n cynnwys:

- Adolygiadau a gynhelir gan sefydliadau'r GIG a llywodraeth leol i ddeall patrymau gwaith sydd fwyaf addas i staff ar ôl Covid-19. Caiff dadansoddiad strategol o iechyd a llesiant staff ei ystyried yn un o'r elfennau allweddol sy'n sbarduno newidiadau i batrymau o ran gwaith a gweithle. Adolygir hefyd sut y gellir defnyddio lleoedd yn well, anghenion diwygiedig o ran gweithle a chapasiti technoleg ddigidol i hwyluso mwy o hyblygrwydd yn y gweithlu;
- Mae tystiolaeth bod y sector cyhoeddus yn gweithio i greu hybiau a fydd yn gallu bod yn gartref i amrywiaeth o wasanaethau llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog, i greu gweithle mwy hyblyg a chydweithredol. Bydd peilotau o'r hybiau hyn sydd wedi'u cynllunio gan rai awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y dyfodol gyda chanfyddiadau yn cael eu bwydo i fwrdd Ystadau Cymru (YC). Mae angen gwneud mwy o ymchwil ynghylch sut y byddai'r hybiau hyn yn gweithio a pha wasanaethau cyhoeddus fyddai'n elwa arnynt;
- Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi dechrau ymchwil fel rhan o'r prosiect cydweithredu trawswladol gyda chwe gwlad Ewropeaidd arall, sy'n edrych ar ddatblygiad a manteision cydweithio mewn ardaloedd gwledig. Mae ymchwil yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i ganfod arferion teithio pobl cyn Covid-19 ac a fyddai gwell ganddynt weithio mewn lleoliad cydweithio gwledig yn y dyfodol;
- Yn dilyn trafodaethau a gynhelir ynghylch yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar wasanaethau ystadau, mae pob cadeirydd rhanbarthol Ystadau Cymru wedi cytuno i hyrwyddo agenda cydweithredol YC i'w chynnwys ym mhob cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o hyn ymlaen.

Cyhoeddiadau newydd Llywodraeth Cymru

Bydd tri chanllaw yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref, sef:

- Protocol Cyd-leoli Ystadau a Throsglwyddo Tir;
- Caffael – Canllawiau ar Gaffael Asedau Eiddo gan Lywodraeth Cymru; a
- Gwaredu – Adnabod a Gwaredu Tir ac Adeiladau Di-graidd Dros Ben.

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

A. Datganiad Ysgrifenedig: Sefydlu Gweithio o Bell

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
14 Medi

www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sefydlu-gweithio-o-bell

B. Rheoli Effeithiau Covid

Mae'r Sefydliad Rheoli Gweithleoedd a Chyfleusterau wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli effeithiau Covid-19 a dychwelyd i'r gwaith.

Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau drwy ddilyn y ddolen a ganlyn

www.iwfm.org.uk/coronavirus-resources.html

Mae cyfres o weminarau rheolaidd o'r enw "Navigating turbulent times" hefyd ar gael gydag arbenigwyr y maes diwydiant sy'n mynd i'r afael â heriau newydd Covid-19 a sut y mae tueddiadau newydd yn dod i'r amlwg yn y gweithle.

C. Gwell i'r Gwenyn: Gwell i'r Bobl

Mae Adnoddau Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli lleoedd ar gyfer peillwyr – sy'n rhan bwysig o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar fioamrywiaeth.

Mae'n ymdrin â'r egwyddorion allweddol ar gyfer helpu peillwyr a rheoli tiriogaethau gwahanol. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i ganllawiau pellach.

www.naturalresources.wales/media/681902/rheoli-tir-adeiladau-cyhoeddus-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf

Os oes gennych ddi-ddordeb yng ngwaith Ystadau Cymru a hoffech ddarparu deunydd ar gyfer y cylchlythyr neu fod gennych gwestiwn ynghylch y gynhadledd sydd ar ddod, anfonwch e-bost i ystadaucymru@gov.wales a bydd y tîm yn hapus i'ch helpu.

